**Y Pum Safon Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth**

<table>
<tr><th colspan="6">ADDYSGEG</th></tr>
<tr><th colspan="2">MIREINIO ADDYSGU</th><th colspan="2">HYRWYDDO DYSGU</th><th colspan="2">DYLANWADU AR DDYSGWYR</th></tr>
<tr><td colspan="2">Rheoli’r amgylchedd dysgu<br>Asesu<br>Gwahaniaethu<br>Cofnodi ac Adrodd<br>Cynnwys Partneriaid mewn dysgu</td><td colspan="2">Pedwar diben i ddysgwyr<br>Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu<br>Profiadau dysgu cyfunol<br>Cyd-destunau bywyd go iawn dilys<br>Dilyniant mewn dysgu<br>Themâu trawsgwricwlaidd</td><td colspan="2">Herio a disgwyliadau<br>Gwrando ar ddysgwyr<br>Dysgwyr yn arwain dysgu<br>Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr<br>Myfyrio ar ddysgu<br>Deilliannau dysgu a lles</td></tr>
<tr><th colspan="3">CYDWEITHREDU</th><th colspan="3">DYSGU PROFFESIYNOL</th></tr>
<tr><td colspan="3">Ceisio cyngor a chymorth<br>Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol<br>Cefnogi a datblygu eraill<br>Galluogi gwelliannau</td><td colspan="3">Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil<br>Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol<br>Dysgu proffesiynol parhaus<br>Sgiliau Cymraeg</td></tr>
<tr><th colspan="3">ARLOESI</th><th colspan="3">ARWEINYDDIAETH</th></tr>
<tr><td colspan="3">Cynnig arbenigedd<br>Datblygu technegau newydd<br>Gwerthuso effaith newid mewn ymarfer</td><td colspan="3">Cymryd cyfrifoldeb personol<br>Arfer cyfrifoldeb corfforaethol<br>Arwain cyd-weithwyr, prosiectau a rhaglenni<br>Cefnogi rolau arweinyddiol ffurfiol</td></tr>
</table>

**Mae disgwyl bydd pob athro yn ymrwymo i’r Safonau Proffesiynol a’u datblygu.**

**Gwerthoedd ac Ymagweddau Cyffredin**

- **<u>Iaith a Diwylliant Cymru</u>**

  Mae’r athro yn pwysleisio’n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- **<u>Hawliau Dysgwyr</u>**

  Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.

- **<u>Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol</u>**

  Mae’r athro yn pwysleisio’n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- **<u>Dysgwyr Proffesiynol</u>**

  Mae’r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi’n barhaus drwy gydol ei yrfa.

- **<u>Rôl yn y System</u>**

  Mae’r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae’n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

- **<u>Hawl Broffesiynol</u>**

  Mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy’n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo’r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i’r ysgol er budd dysgwyr.